British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2007/08

CYNNWYS

- Datganiad y Cadeirydd
- Adolygiad Busnes
- Cynnal a chadw ein dyfrffyrdd
- Sicrhau twf mewn incwm masnachol
- Sicrhau amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus
- Y dyfodol
- Adolygiad yr Alban
- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Adolygiad Ariannol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/08 Dyfrffyrdd Prydain

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac i Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 24 (3) a 27 (8) o Ddeddf Trafnidiaeth 1962.

Corfforaeth gyhoeddus yw Dyfrffyrdd Prydain sy'n atebol i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yng Nghymru a Lloegr, a Llywodraeth yr Alban yn yr Alban. Rydym yn rheoli rhwydwaith 2,200 milltir o hyd o gamlesi ac afonydd sy'n dyddio'n ôl 200 mlynedd.

Y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol, Cymru a Lloegr
Jonathan Shaw AS

Y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd, yr Alban
Stewart Stevenson ASA

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Dros y 12 mis diwethaf rwyf wedi cyfarfod â llawer o randdeiliaid o wahanol grwpiau â diddordeb. Er bod pawb a welaf yn frwdfrydig ynglŷn â photensial mawr y dyfrffyrdd, y cwestiwn a ofynnir amlaf yw sut rydych yn pennu'ch blaenoriaethau o ystyried bod cymaint o alwadau ar eich adnoddau cyfyngedig? Gadewch i mi nodi'n glir: prif flaenoriaeth y Bwrdd yw cynnal a chadw ein rhwydwaith hanesyddol o ddyfrffyrdd sydd wedi goroesi mewn ffordd ddiogel ac atyniadol i'r miloedd o ymwelwyr sy'n defnyddio'r llwybrau halio a'r dŵr, heddiw ac ymhell i'r dyfodol.

Dyma'r flaenoriaeth y cytunwyd arni gyda'r Llywodraeth ac yn ystod y flwyddyn dan sylw gwariwyd £95.1m yn uniongyrchol ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd, o gyfanswm cost weithredol o £164.4m, heb gynnwys gwaith a ariannwyd gan drydydd partion. Rydym yn gwario'r arian hwn i gyflawni ein prif ddiben, ac mae'n rhaid i ni ennill yr arian ein hunain cymaint ag y bo modd. Cawsom grantiau gwerth £67.9m i gyd gan Defra a Llywodraeth yr Alban a chyfrannodd cychwyr £22.0m mewn ffioedd am drwyddedau cychod ac angori. Daw gweddill yr incwm sydd ei angen i ariannu ein costau gweithredu cyfan o nifer fawr o weithgareddau masnachol sydd ar gynnydd megis cyfleustodau, datblygu eiddo a thafarndai. Mae'r cyfalaf a fuddsoddir yn y gweithgareddau masnachol hyn yn cael ei reoli'n ofalus i ddatblygu ffrwd gynyddol o incwm i dalu am y gwaith o gynnal a chadw'r dyfrffyrdd yn y dyfodol. Ail flaenoriaeth y Bwrdd, a gymeradwywyd gan y llywodraethau, yw parhau i sicrhau twf yn yr incwm masnachol hwn er budd y dyfrffyrdd yn y dyfodol.

Yn ogystal â hyn oll, anelwn at sicrhau amrywiaeth eang o fuddiannau eraill i'r cyhoedd o'n hased cenedlaethol gwych. Mae'r rhain yn amrywio o hyrwyddo'r defnydd iach ac eco-gyfeillgar o'r camlesi at ddibenion cerdded, beicio a chychod, gan ddiogelu cynefinoedd bywyd gwyllt sy'n bwysig yn genedlaethol, diogelu bioamrywiaeth a threftadaeth i symbylu adfywio trefol a gwledig ac adfer dyfrffyrdd ynghyd â datblygiadau tai cysylltiedig sydd eu hangen yn ddirfawr.

Ni allwn gyflawni ein prif ddiben o ddiogelu ein dyfrffyrdd hanesyddol os oes rhaid i ni ddefnyddio ein cyllid craidd ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â chynnal a chadw dyfrffyrdd, felly mae'n rhaid i gymaint o'r arian ar gyfer y buddiannau cyhoeddus gwerthfawr hyn ddod o drydydd partïon, sy'n creu partneriaeth gyda ni. Er mwyn sicrhau'r budd cyhoeddus hwn, rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol a'r Loterïau ymhlith eraill i gael arian i greu rhai o'n prosiectau mwyaf cyffrous, yr amlycaf ohonynt yw'r gwaith adfywio hynod a welir yn rhai o'n dinasoedd drwy ail-lunio eu glannau mewndirol.

Gwelwyd rhagor o arwyddion o dwf y llynedd. Rwyf yn falch bod nifer y trwyddedau cychod hirdymor ar ein dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu eto o 5% i 32,566 ac mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd wedi cynyddu 13%; bellach mae 3.3m o bobl yn ymweld â dyfrffordd o leiaf unwaith dros benwythnos arferol.

Eleni parhawyd â'r gwaith o adfer dyfrffyrdd er gwaethaf y penderfyniad anodd iawn gennym i dynnu arian yn ôl o Bartneriaeth Camlas Cotswold. Rydym yn falch o nodi y bydd y prosiect hwn yn parhau gyda chymysgedd gwahanol o gyllid. Ar Afonydd Bow Back bydd loc sy'n gallu trin llongau nwyddau 350 tunnell yn agor yn yr hydref gan roi porth Olympaidd i'r Parc Olympaidd. Ochr yn ochr â hyn mae ein cwrs dŵr gwyn nodedig ym Morglawdd Tees wedi cael ei ddewis i ymddangos yng nghanllaw Pwyllgor Trefnu Llundain i wersylloedd hyfforddi cyn y Gemau. Mae'r prosiectau ar gyfer adfer Camlas Manceinion, Bolton a Bury (Rhan 1) ac adeiladu cyswllt Lerpwl yn mynd rhagddynt yn dda ar y safleoedd. Mae'r gwaith i adfer Camlesi Droitwich wedi cael caniatâd cynllunio ac mae'r gwaith wedi dechrau. Yn yr Alban, mae'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth yr Alban, llywodraeth leol, Cronfa Fawr y Loteri a Dyfrffyrdd Prydain wedi esgor ar arian cychwynnol am brosiect HELIX, gyda'i borth 'Kelpie' newydd eiconig i gamlesi Iseldiroedd yr Alban.

Bu ein tasg yn un anodd iawn eleni yn sgîl y llifogydd yn ystod haf 2007. Rwyf yn falch o nodi i'n timau ledled y wlad ymateb yn wych. Drwy weithredu diymdroi a diwyd llwyddwyd i arbed y dyfrffyrdd rhag mwy o ddifrod o bosibl ac i sicrhau bod llawer o gymunedau cyfagos wedi'u diogelu.

Rwyf yn ffyddiog y gall y dyfrffyrdd barhau i ddatblygu, er gwaethaf yr amodau economaidd mwy heriol dros y flwyddyn nesaf neu ddwy, a byddant yn chwarae rhan gynyddol ddynamig a chadarnhaol ym mywyd y wlad. Mae'r rhwydwaith o ddyfrffyrdd yn parhau i fod mewn cyflwr cadarn ar y cyfan, er bod yn rhaid i ni ymdopi ag achos o dorri ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu eleni, digwyddiad nas rhagwelwyd.

Bu ein perthynas â Llywodraeth y DU (ein cyfranddaliwr mwyaf) yn gadarnhaol iawn eleni diolch i ymdrechion Jonathan Shaw AS, y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol a'i dîm o swyddogion. Esgorodd y berthynas hon ar setliad grant rhesymol o dan amgylchiadau lle roedd pwysau mawr ar gyllid y llywodraeth ac mae hyn wedi helpu'r Bwrdd i lunio cynllun busnes ymarferol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n gynllun sy'n cydnabod yr anawsterau economaidd tebygol ond hefyd sy'n cynnwys ymrwymiad mawr i gwblhau'r cam cyntaf o waith atgyweirio ar Gamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu a'i hailagor erbyn Pasg 2009.

Hoffwn ddiolch hefyd i Lywodraeth yr Alban a'n gweinidog, Steward Stevenson ASA, am ei gefnogaeth i ddatblygu dyfrffyrdd yr Alban. Edrychwn ymlaen at feithrin ein perthynas dros gyfnod nesaf y cynllun tair blynedd. Yn yr un modd, rydym wedi parhau i gael trafodaethau adeiladol iawn gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac edrychwn ymlaen at gynnydd pellach yn 2008/09.

Gan edrych y tu hwnt i'n cynllun busnes am y tair blynedd nesaf, cred y Bwrdd ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag ariannu'r dyfrffyrdd yn yr hirdymor ac mae'n cydnabod nad yw'r sefyllfa gyfredol, er ei bod yn ddigonol am y tymor byr a'r tymor canolig, yn diwallu ein hanghenion ariannu a nodwyd yn yr hirdymor. Dyna pam y comisiynwyd adolygiad o opsiynau posibl o ran statws Dyfrffyrdd Prydain yn y dyfodol gan KPMG eleni. Nod yr adolygiad yw ceisio deall a all newid statws fod yn rhan o gynllun ehangach i gyfrannu at gynaliadwyedd y dyfrffyrdd yn yr hirdymor. Disgwyliwn gael adroddiad llawn yn ystod yr haf a gobeithiwn fwydo ei gasgliadau i mewn i'r ddadl gyhoeddus sy'n datblygu ynglŷn â chyfeiriad y dyfrffyrdd yn ystod y deng mlynedd nesaf a'r strategaeth orau i sicrhau eu llwyddiant cynyddol yn y dyfodol.

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi ymateb yn gadarn i heriau mawr eleni. Fel Cadeirydd ac ar ran y Bwrdd hoffwn gydnabod ein timau dyfrffyrdd ledled y wlad a diolch i bob aelod o staff am eu cyfraniadau unigol a'u hymdrech anhygoel eleni. Bu eu hymrwymiad i ddiogelwch a mwynhad y dyfrffyrdd gan ein cwsmeriaid a'r cymunedau cyfagos er gwaethaf y llifogydd yn rhagorol.

Drigain mlynedd yn ôl daethpwyd â'r dyfrffyrdd mewndirol ynghyd o dan berchenogaeth gyhoeddus. Yn ystod y cyfnod hwnnw maent wedi datblygu i ymateb i heriau enfawr yng nghymdeithas Prydain ac maent yn parhau'n berthnasol i'r byd cyfoes. Mae'r Bwrdd a minnau'n falch iawn o'r cyfraniad mawr a wna Dyfrffyrdd Prydain, ei rwydwaith a'i bobl i ansawdd bywyd cymunedau ledled y wlad ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau y byddant yn ffynnu yn y dyfodol.

Tony Hales
Cadeirydd

ADOLYGIAD BUSNES

Mae hon yn weledigaeth yr ydym wedi'i datblygu er mwyn ein harwain yn ein gwaith o reoli'r dyfrffyrdd:

Ein huchelgais yw, erbyn 2012, y byddwn wedi creu rhwydwaith dyfrffyrdd ehangach, bywiog a hunangynhaliol ar y cyfan a ddefnyddir gan ddwywaith gymaint o bobl â'r rhai a oedd yn ei ddefnyddio yn 2002.
Caiff ei ystyried yn un o asedau cenedlaethol pwysicaf a mwyaf gwerthfawr y wlad. Bydd ymwelwyr wrth eu bodd gyda'r profiad ac o ganlyniad daw llawer i gyfranogi ynddo.

Yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn hon rydym wedi cael trafodaethau buddiol â Jonathan Shaw, y Gweinidog newydd dros Ddyfrffyrdd Mewndirol a'i dîm o swyddogion i ddatblygu 'llyw strategol' ar y cyd sy'n ein helpu i ddehongli a blaenoriaethu camau gweithredol i fodloni disgwyliadau Defra. Mae'r llyw strategol yn nodi tair blaenoriaeth yn ôl eu trefn:

1. Cynnal a chadw'r rhwydwaith o ddyfrffyrdd mewn cyflwr boddhaol

2. Gwireddu gweledigaeth a rennir gan y Llywodraeth/Dyfrffyrdd Prydain yn y tymor hwy ar gyfer symud tuag at fod yn fwy hunangynhaliol.

3. Sicrhau amrywiaeth o fuddiannau cyhoeddus ychwanegol

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau hyn er gwaethaf yr anawsterau yn sgîl y llifogydd mawr yn ystod yr haf eleni a'r amodau economaidd llai ffafriol o ddiwedd yr hydref ymlaen.

Yn yr Alban rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth yr Alban a'n gweinidog, Stewart Stevenson ASA.
Mae gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban yn gyson â'r pum amcan strategol a bennwyd gan Lywodraeth yr Alban ac yn gefnogol iddynt:

- Yn Gyfoethocach a Thecach
- Yn Iachach
- Yn Ddiogelach a Chryfach
- Yn Gallach
- Yn Wyrddach

Credwn ein bod yn sefydliad unigryw o ran ein natur drawsbynciol sy'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr Alban.

Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

CYNNAL A CHADW EIN DYFRFFYRDD

Diben craidd Dyfrffyrdd Prydain yw diogelu'r dyfrffyrdd hanesyddol yn ein gofal. Rydym wedi datblygu model sy'n mapio'r gwariant sydd ei angen i gynnal y rhwydwaith mewn cyflwr boddhaol. Mae'r model hwn yn ein galluogi i gyfeirio ein gwariant er mwyn cael y canlyniadau gorau. Gelwir y model hwn yn 'Steady Slate'.

Cynnal a chadw ein dyfrffyrdd

Y llynedd (ac ein blaengynllun busnes) nid oedd gennym ddigon o arian i gyflawni Steady Slate yn llawn. Hoffem wneud rhagor a hoffai ein cwsmeriaid i ni wneud rhagor. Fodd bynnag, drwy ganolbwyntio ar risgiau a blaenoriaethau allweddol, roeddem yn gallu sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn parhau'n ddiogel ac yn ateb gofynion sylfaenol ein cwsmeriaid.

Fel rhan o Steady Slate gwariwyd £95m i gyd ar gynnal a chadw'r rhwydwaith. Cynhaliwyd y rhwydwaith drwy waith peirianyddol mawr a gynlluniwyd megis atgyweirio lociau, twneli, pontydd ac argloddiau yn ogystal â'r gwaith arferol o ddydd i ddydd megis torri gwair, casglu sbwriel a phaentio gatiau lociau.

Ni ellir bob amser ragweld gwariant ar ein hasedau 200 mlwydd oed fel y gwelwyd ym mis Hydref 2007 pan dorrodd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, rhywbeth nas rhagwelwyd. Adolygwyd y digwyddiad ar unwaith gennym a chafwyd iddo gael ei achosi gan fath o erydu mewnol yn yr arglawdd.

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffygion yn ein gweithdrefnau archwilio. Bydd y gwaith atgyweirio yn costio tua £7m ar y cam cyntaf (a hyd at £15m i gyd). Er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau i gymunedau a busnesau lleol o amgylch y gamlas, gwnaethom ymrwymiad cadarn i ddechrau'r rhan gyntaf o'r gwaith atgyweirio er mwyn ailagor y gamlas ym mis Mawrth 2009. Dechreuodd y gwaith ym mis Mawrth 2008 i atgyweirio rhannau o'r arglawdd gyda'r prif gontract ar gyfer gwaith atgyweirio'r leinin yn dechrau ym mis Mai 2008.

Oherwydd ein rhwymedigaethau ychwanegol a ddeilliodd o dorri Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu bu'n rhaid i ni ailasesu ymrwymiadau eraill. Oherwydd hynny, ac o'n hanfodd, gwnaethom dynnu ein hymrwymiad o £6m i bartneriaeth adfer Camlesi Cotswold yn ôl. Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau bod y gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei drosglwyddo i'r partneriaid sy'n weddill mewn modd trefnus a buddiol er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl o lwyddiant yn y tymor hwy.

Safonau a boddhad cwsmeriaid

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth a roddwn i gwsmeriaid. Mae'r Safonau'n cynnwys: safonau pobl; safonau diogelwch cynnal a chadw seilwaith; a safonau perfformiad. Paratowyd i roi'r rhain ar waith o fis Ebrill 2008 a byddwn yn monitro ac yn rhoi adroddiad ar ein perfformiad. Mae'r Safonau ar gael yn www. britishwaterways.co.uk/css.

Mae arolygon rheolaidd yn ein helpu i fesur barn pobl am y dyfrffyrdd a'n cynnydd tuag at sicrhau boddhad cwsmeriaid. Dangosodd ein harolwg yn 2007 fod gan y cyhoedd farn gynyddol gadarnhaol am ddyfrffyrdd mewndirol gyda 95% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod camlesi yn: 'rhan bwysig o dreftadaeth y wlad'.

Mae maint ein rhwydwaith o ddyfrffyrdd ynghyd â'n hadnoddau cyfyngedig wedi llywio ein strategaeth o dargedu cyrchfannau allweddol fel canolbwynt i'n gwaith

marchnata a gofal cwsmeriaid. Mae ymchwil i'r farchnad wedi dangos yn gyson sgoriau uchel o ran mwynhad cyffredinol yn yr ardaloedd hyn gyda 95% yn dangos sgoriau da neu ragorol eleni.

O ran boddhad cyffredinol, rydym yn mesur ein hunain drwy ddefnyddio pum dangosydd allweddol, a nodir yn y tabl i'r dde. Yn gyffredinol gwnaeth y lefel uchel o foddhad cyffredinol barhau neu gynyddu ychydig ymhlith ein cwsmeriaid nad ydynt yn defnyddio cychod. Fodd bynnag, roedd y canfyddiad ynglŷn â chyflwr cyffredinol ymhlith perchnogion cychod preifat wedi gwaethygu. Credwn y gallai anfodlonrwydd ynghylch toriadau mewn grantiau, pryder ynglŷn â'r cynnydd ym mhrisiau trwyddedau a mentrau a ganfuwyd yn rhai masnachol fel y treial o dendro angorfeydd i gyd chwarae rhan yn y cyfraddau is hyn, a ategwyd gan y ffaith nad oedd canfyddiad cychwyr hurio wedi newid braidd dim.

Edrychwn ymlaen at wella ein sgoriau boddhad dros y flwyddyn nesaf drwy gyflawni ein Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd drwy ymestyn ein rhaglen sefydlu i staff a'n rhaglen hyfforddi mewn gwasanaethau cwsmeriaid (cwblhawyd cam 1 gan bob aelod o staff yn 2007/08) a thrwy wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu'n gyffredinol ac yn ymdrin â chyfrifon cleientiaid.

Dangosyddion perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid 2007

Good & excellent … = Sgôr dda a rhagorol %

Achieved = Cyflawnwyd

Change = Newid

Cyflwr cyffredinol perchnogion cychod
Cyflwr cyffredinol cychwyr gwyliau
Mwynhad cyffredinol mewn cyrchfannau
Mwynhad cyffredinol ar hyd llwybrau halio
Mwynhad cyffredinol genweirwyr

Cwynion

Yn ystod y flwyddyn cawsom 521 o gwynion ar lefel gyntaf proses gwyno Dyfrffyrdd Prydain, gostyngiad o 30% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (762 yn 2006/07). Ymatebwyd i bron bob un o fewn y cyfnod penodedig sef pymtheg diwrnod gwaith. O'r rhain codwyd 68 o gwynion i ail lefel lle maent yn cael eu hystyried gan gyfarwyddwr. Mae hyn yn cyfateb i 13% o'r holl gwynion a ddaeth i law (11% yn 2006/07).

Mae'r Ombwdsmon Dyfrffyrdd annibynnol yn ystyried cwynion ar y trydydd cam sef y cam olaf. Yn ystod y flwyddyn cafodd 121 o ymholiadau nad oedd 30% yn ymwneud â Dyfrffyrdd Prydain ac yr oedd 46% yn gynamserol, hy nad oedd yr achwynydd wedi cyflwyno cwyn i Dyfrffyrdd Prydain eto. Derbyniwyd 29 o gwynion (26 yn 2006/07) i'w hystyried. Cwblhaodd yr Ombwdsmon Dyfrffyrdd 39 o achosion yn ystod y flwyddyn (26 yn 2006/07). Mewn dau achos dyfarnodd yn llawn yn erbyn Dyfrffyrdd Prydain ac mewn 14 o achosion dyfarnodd yn rhannol yn erbyn Dyfrffyrdd Prydain.

Mae gwybodaeth am gynllun yr Ombwdsmon a'i bwyllgor annibynnol ar gael yn www.waterways-ombudsman.org.

SICRHAU TWF MEWN INCWM MASNACHOL

Roedd ein canlyniadau ariannol ar gyfer 2007/08 yn dda o ystyried y dirywiad y dechreuwyd ei weld yn y farchnad ariannol a'r farchnad eiddo yr ydym yn dibynnu arnynt am gyfran sylweddol o'n hincwm masnachol.

Crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn £m

Restated = Ailddatganwyd
Change = Newid

Incwm masnachol
Cyfraniadau trydydd parti tuag at waith
Grantiau'r Llywodraeth

Cyfanswm y refeniw
Colled gweithredu

Cyfran y Grŵp o incwm o gyd-fentrau
Cyfran y Grŵp o ganlyniadau gweithredol cyd-fentrau

Elw/(colled) ar weithgareddau gweithredol
cyn treth
ar ôl treth

Elw/(colled) ar weithgareddau eiddo anweithredol
cyn treth
ar ôl treth

Cronfeydd wrth gefn y Grŵp

* trosglwyddwyd i gronfeydd refeniw wrth gefn
** trosglwyddwyd i gronfa cyfalaf wrth gefn

Mae ffigurau cymharol ar gyfer 2007/08 wedi'u hailddatgan o ganlyniad i drosglwyddo i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Tyfodd incwm masnachol 3% i £102.1m ar gyfer y flwyddyn. Y rheswm dros hyn oedd y cynnydd mewn ffioedd am drwyddedau cychod ac angori yn ogystal â pherfformiad da gan y busnes cyfleustodau lle cytunwyd ar dariffau diwygiedig. Cynyddodd incwm eiddo 4% i £38.9m oherwydd cynnydd net bach yn y portffolio buddsoddi o ganlyniad i ailfuddsoddi elw o waredu adeiladau gweithredol, gwelliannau mewn incwm hysbysebu a chynnydd mewn cytundebau cyswllt marina trydydd parti. Cynyddodd elw net o BWML yn sylweddol o £0.7m (2007: £0.4m) oherwydd mwy o elw o angori a'r rheolaeth dros gostau gweithredu.

Gostyngodd cyfran y Grŵp o ganlyniadau gweithgareddau cyd-fentrau ar ôl treth i roi colled o £2.4m o gymharu ag elw o £7.3m ar gyfer 2006/07. Adlewyrchodd y gostyngiad hwn y gohirio o ran trafodion gwerthu mewn cyd-fentrau datblygu eiddo oherwydd dirywiad yn y farchnad eiddo a'r farchnad gredyd.

Gostyngodd grantiau'r Llywodraeth hefyd i £67.9m fel cyfanswm o gymharu â £72.1m ar gyfer y flwyddyn flaenorol, a hynny am fod cynnydd eithriadol y llynedd yn seiliedig ar arian ad-hoc ychwanegol o £3.9m gan Lywodraeth yr Alban tuag at waith penodol yn yr Alban.

Mae cyfranwyr trydydd parti tuag at waith yn cynnwys cyllid am brosiectau adfer camlesi ac adfywio yn ogystal â gwaith cynnal a chadw mwy cyffredinol. Mae'r cyllid hwn yn ymwneud yn benodol â chyflawni'r prosiectau hyn. Cynyddodd yr incwm hwn o £49.1m (2007: £17.4m) gan adlewyrchu'r prif brosiectau sydd ar waith.

Cafwyd colled ar ôl treth o £1.8m am y canlyniad gweithredu (2007: elw £1.7m) ac mae'n gyson â'r gofyniad i adennill costau ar y cyfrif refeniw. Gwnaed elw o £38.1m ar ôl treth ar weithgareddau anweithredol (2007: £45.7m) gan gynnwys elw ar waredu buddsoddiadau eiddo o £19.4m (2007: £8.3m) ac elw ar ailbrisio'r portffolio buddsoddi eiddo o £17.2m (2007: £44.1m).

Cynyddodd cronfeydd wrth gefn y Grŵp i £477.8m, sef cynnydd o 12% gan adlewychu'r cynnydd yng ngwerthoedd eiddo a hefyd ostyngiad yn niffyg y gronfa bensiwn.

Roedd gwargedion ailbrisio ar gyfer 2007/08 sef £17,2m (2007: £44.1m) dipyn yn is nag yr oeddent yn 2006/07 ond eto i gyd maent yn well na'r duedd gyffredinol yng ngwerthoedd eiddo buddsoddi'r DU y llynedd. Y rheswm dros hyn yw cynnydd sylweddol mewn prisiadau sy'n deillio o ailnegodi prydlesau a chodi rhenti wedi adolygiad sydd wedi gwneud iawn yn rhannol am y tueddiadau cyffredinol tuag i lawr mewn prisiadau. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys eiddo ac iddo botensial datblygu lle bu twf cyfalaf yn y tymor hwy yn nod pennaf, nod a gyflawnwyd drwy adfywio safleoedd penodol ac ychwanegiadau at ganiatadau cynllunio.

Cynhaliwyd y prisiad o eiddo buddsoddi fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2007. Ystyriwyd y symudiad mewn prisiadau am y cyfnod o dri mis hyd at 31 Mawrth 2008 ac ni chredir bod angen addasiad net sylweddol i brisiad mis Rhagfyr 2007. Fodd bynnag yn ôl dangosyddion y farchnad bydd y cynnydd sy'n parhau yn enillion prisiadau eiddo buddsoddi a'r gostyngiad ym marchnadoedd eiddo preswyl yn effeithio'n negyddol ar werth eiddo Dyfrffyrdd Prydain yn 2008.

[graphs]

Incwm masnachol a grantiau'r llywodraeth

Incwm masnachol
Grantiau'r llywodraeth

Cronfeydd wrth gefn y Grŵp – cyfanswm yr ecwiti

SICRHAU AMRYWIAETH O FUDDIANNAU CYHOEDDUS

Mae ein dyfrffyrdd yn cynnig llawer o fuddiannau cyhoeddus anariannol i'r wlad. Mae niferoedd cynyddol o bobl yn dewis ein llwybrau halio hygyrch ar hyd y dyfrffyrdd ar gyfer gweithgareddau beunyddiol megis mynd â'r ci am dro, ymarfer corff a chymudo.

Rydym hefyd yn darparu gweithgareddau hygyrch sy'n rhoi gwerth da i ganŵ-wyr a genweirwyr, ac amrywiaeth o offer i ysgolion, gan gynnwys gwefan benodol a chyfleusterau addysgu.

Cynyddodd y defnydd o'r dyfrffyrdd 13% yn gyffredinol yn 2007; dros bythefnos arferol defnyddiodd 3.3m o bobl un o'n dyfrffyrdd, o gymharu â 2.9m yn 2006.

Rydym yn gweithio gyda llawer o bartneriaid i gwblhau ein gwaith o'r Loterïau i awdurdodau lleol, awdurdodau datblygu rhanbarthol ac elusennau lleol. Maent yn cynnig ysbrydoliaeth, cefnogaeth a chyngor sy'n ein helpu i gyflawni'r nodau cyffredin, y mae llawer ohonynt yn ymwneud ag ariannu mwy o fudd cyhoeddus. Hoffem ddiolch i bob un ohonynt.

Cynaliadwyedd

Rydym yn hyrwyddo'r dyfrffyrdd i wneud cyfraniad i gynaliadwyedd. Yn 2007/08 roedd yr hyn a gynigiwyd yn y maes hwn yn amrywio o hyrwyddo hurio cychod fel math gwyrddach o wyliau i lwyddo i gael busnesau i ddefnyddio systemau oeri cynaliadwy a chost-effeithiol ar gyfer eiddo ar lannau camlesi. Mae dŵr camlesi yn cynnig system oeri gynaliadwy yn lle llosgi tanwyddau ffosil neu ddefnyddio llawer o drydan i bweru unedau oeri. Rydym hefyd yn parhau i gydweithio'n agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Defra ar liniaru llifogydd a rheoli dŵr yn gynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn comisiynwyd ARUP, ymgynghorwyr proffesiynol, i gynnal adolygiad annibynnol o'n hymagwedd tuag at yr agweddau amgylcheddol ar ddatblygu cynaliadwy. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod 'gan Dyfrffyrdd Prydain fel sefydliad allu mawr i wneud cyfraniad sylweddol i ddyfodol cynaliadwy a'i fod eisoes wedi gwneud dechrau cadarnhaol i fynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol mewn sawl maes'. Sefydlwyd grŵp llywio, o dan gyfarwyddwr, ar ôl yr adolygiad i ystyried datganiad o ymrwymiad Dyfrffyrdd Prydain i ddatblygu cynaliadwy. Bydd y grŵp hefyd yn cytuno ar dargedau cynaliadwyedd a'r metrics a fydd yn bwydo i mewn i'n canllawiau cynllunio busnes. Mae tasgau eraill yn cynnwys datblygu cynllun cyfathrebu, gan nodi sut y gellir cynnwys datblygu cynaliadwy mewn adolygiadau o berfformiad ar lefel uned fusnes, tîm ac unigolyn yn ogystal ag ystyried dyfodol y gofrestr cynaliadwyedd.

Treftadaeth

Eleni hefyd parhaodd ein perfformiad rheoli treftadaeth i wella. Dechreuwyd datblygu cytundebau partneriaeth treftadaeth cyn y ddeddfwriaeth newydd, a ddisgwylir o 2010 ymlaen. Ychwanegwyd at ddata ar asedau treftadaeth a'i ddiweddaru a bu gwelliant cyffredinol yn ansawdd ffisegol gwaith ar adeiladau a strwythurau treftadaeth. Mae nifer adeiladau Awdurdodau Lleol mewn perygl wedi gostwng yn sylweddol o 125 yn 2004/05 i lai na 50 yn 2007/08.

Mae rhoi cyhoeddusrwydd i'n gweithgareddau treftadaeth, eu cyfleu a'u dehongli yn hanfodol i'r rhan o'n gweledigaeth o 'ased cenedlaethol a werthfawrogir'. Cafodd

gweithgarwch treftadaeth Dyfrffyrdd Prydain dipyn o sylw yn y wasg leol a'r wasg arbenigol drwy gydol 2007/08. Ochr yn ochr â'n partneriaid cawsom gryn lwyddiant yng Ngwobrau Dadeni Dyfrffyrdd BURA ar gyfer 2008 gan ennill tri o'r deg categori gyda phrosiectau a oedd yn ymwneud â threftadaeth, dod yn ail mewn pum categori ac ennill y Wobr am Gyflawniad Eithriadol am adfer adeiladau a strwythurau camlas ym Masnau Stourport.

Mae Traphont Pontycysyllte hefyd wedi cael ei henwebu i gael statws Safle Treftadaeth y Byd yn 2008: carreg filltir o ran cydnabod pwysigrwydd traphont fawr Telford a'r dyfrffyrdd yn gyffredinol.

Yr Amgylchedd

Er i'n dyfrffyrdd gael eu hadeiladu am resymau masnachol yn wreiddiol heddiw maent yn gynefinoedd i lawer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid ac rydym yn ymrwymedig i ofalu am ein hamgylchedd arbennig. Rydym hefyd am leihau unrhyw effaith negyddol a gawn ar yr amgylchedd ehangach drwy'r gwaith a wnawn.

Rydym wedi dechrau gwella'r ffordd rydym yn gofalu am ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig eu hunain drwy adeiladu ar ein Cod Ymarfer Amgylcheddol, gan greu System Rheoli Amgylcheddol fwy trwyadl yn unol ag egwyddorion ISO 14001. Bydd hyn yn helpu ein pobl i barhau i wella ein gwaith rheoli amgylcheddol yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol.

Cludo nwyddau ar ddŵr

Erys rôl o hyd i gludo nwyddau ar ddŵr ar ein dyfrffyrdd mwy o faint. Bu diddordeb cynyddol yn y potensial i gludo nwyddau wrth i gostau tanwydd gynyddu ac wrth i ymwybyddiaeth o'i fuddiannau amgylcheddol godi. Yn ystod 2007/08 rydym wedi cydweithio â chorff hyrwyddo'r llywodraeth, sef Dŵr a Môr, i ddod â grwpiau amrywiol â diddordeb yn y diwydiant ynghyd i helpu i hyrwyddo cludo nwyddau mewn marchnadoedd priodol a sicrhau'r fframwaith cywir o grantiau a chymorth cynllunio trefol i'r sector.

Addysg

Mae gennym fenter addysg benodol - Wild Over Waterways (WOW) gyda'r nod o ennyn brwdfrydedd plant a'u haddysgu am dreftadaeth a bywyd gwyllt ein dyfrffyrdd. Yn 2007 cafwyd 82,000 o ymweliadau â gwefan wow4water.net ac mae ein cydlynwyr addysg wedi cael cysylltiad uniongyrchol â bron 20,000 o blant o fwy na 70 o ysgolion. Mae ein Her Diogelwch Dŵr newydd ar ein gwefan wedi bod yn boblogaidd ymhlith athrawon ac arweinwyr ieuenctid, sy'n gallu darparu pump o weithgareddau diogelwch dŵr yn rhyngweithiol.

Dehongli

Rydym yn gweithio ar brosiectau i ennyn diddordeb pobl yn nhreftadaeth ein dyfrffyrdd ac rydym wedi llwyddo i ddenu arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri i greu deunyddiau dehongli yn rhai o'n cyrchfannau mwyaf poblogaidd i ymwelwyr. Yn Aberhonddu rydym wedi gweithio gydag oedolion ag anawsterau dysgu o Ysgol Penmaes ac aelodau Theatr Ffynnon, i gynhyrchu perfformiad theatr gwefreiddiol sy'n ategu deunydd dehongli arall ar hyd y gamlas.

Wrth ymyl Lociau Foxton ar Gamlas Fawr yr Undeb mae ein cynllun dehongli newydd a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn golygu eich bod yn gallu cyfarfod â

chymeriadau hanesyddol y gamlas – mae Jack Cryer ceidwad y loc yn 1884 yn sefyll yn ei ystafell ffrynt a byddwch yn cyfarfod â gwas y cychwr yn arwain ei geffyl i'r stablau. Hefyd gall ymwelwyr lwytho taith sain i lawr yn waterscape.com cyn iddynt ymweld â'r cyrchfan poblogaidd hwn.

SICRHAU AMRYWIAETH O FUDDIANNAU CYHOEDDUS

Adfywio ac Adfer

Yng nghyd-destun darparu rhwydwaith cynaliadwy o ddyfrffyrdd ac iddo amgylchedd naturiol ac adeiledig arbennig, adfywio glannau camlesi ac adfer dyfrffyrdd a ystyrir yn gyffredinol yn brif ysgogwyr y budd cyhoeddus a grëwyd gan ein camlesi a'n hafonydd.

Rydym yn galluogi ac yn dylanwadu ar tua £11.7bn o weithgareddau adfywio ar hyd ein camlesi a'n hafonydd. Yn ystod y flwyddyn cawsom ein henwi ym Mhapur Gwyrdd y Llywodraeth ar Dai fel enghraifft dda o sefydliad sy'n 'mynd ati i reoli eu tir dros ben a rhyddhau safleoedd'. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i roi adroddiadau chwarterol ar niferoedd a thueddiadau ym maes tai ac yn dangos y ffordd i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus o ran adroddiadau yn y maes hwn.

Adfywio

Er gwaethaf amodau anodd y farchnad eiddo yn ail hanner y flwyddyn 2007/08 gwnaed cynnydd da gyda rhai prosiectau adfywio mawr sy'n cynnig budd cyhoeddus ychwanegol.

Stourport-on-Severn

Mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, Advantage West Midlands drwy Stourport Forward, Cyngor Dosbarth Wyre Forest, Cyngor Tref Stourport, Cyngor Sir Gaerwrangon a Chyngor y Celfyddydau mae basnau'r gamlas yn Stourport wedi cael eu hadfer i'w cyflwr gwreiddiol. Mae'r prosiect wedi adfywio ardal sy'n cynnwys 29 o adeiladau rhestredig. Eleni mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar raglen arloesol yn ymwneud â'r celfyddydau a gwelliannau i'r dirwedd gwerth £600,000. Canmolwyd partneriaeth gadarn â rhaglen Menter Trefi Marchnad yng Ngwobrau Dadeni Dyfrffyrdd eleni drwy roi'r wobr am 'Gyflawniad Eithriadol' i'r bartneriaeth.

Basn Loughborough

Mae cam cyntaf cynllun Basn Loughborough, a agorwyd yn swyddogol gan Jonathan Shaw AS, y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol ym mis Hydref 2007, wedi arwain at fasn gwell, cyfleusterau i gychwyr a man cyhoeddus o safon i'r cyhoedd wedi'i amgylchynu gan ddau adeilad sy'n darparu 179 o welyau i fyfyrwyr a dwy uned bwyty llawr daear. Mae'r cynllun wedi adfywio ardal a arferai fod ar gau i'r cyhoedd, ac wedi darparu arena ar gyfer digwyddiadau a lle atyniadol i bobl leol ddod a mwynhau.

Ceiau Caerloyw

Mewn partneriaeth â Peel Land & Property, mae Dyfrffyrdd Prydain wrthi'n datblygu canolfan allfeydd ffatri 1.6 metr sgwâr ynghyd â gwestai, campws coleg Swydd Gaerloyw, bwytai a barrau sy'n gyfagos â'r dociau hanesyddol yng Nghaerloyw. Mae'r datblygiad, ar dir y bu'r rhan fwyaf ohono yn ddiffaith gynt, yn cynnwys nifer o adeiladau hanesyddol wedi'u hadnewyddu a bydd yn trawsffurfio ardal y dociau ac yn

gwella'r lle dŵr fel amwynder cyhoeddus. Bydd yn denu llawer mwy o ymwelwyr i ardal Caerloyw ac yn creu llawer mwy o swyddi yn yr economi leol. Bydd y ganolfan allfeydd yn agor yn 2009, a bydd camau diweddarach y datblygiad yn arwain at hyd at 1,000 o gartrefi newydd a chyfleoedd cyflogaeth pellach.

Doc Clarence, Leeds

Mae'r ailddatblygiad defnydd cymysg hwn o dir o amgylch Doc Clarence, gwerth £250m, wedi cael ei gwblhau. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Dyfrffyrdd Prydain a Crosby Lend Lease ac mae'n cynnwys cymysgedd bywiog o siopau, barrau, bwytai a swyddfeydd yn ogystal ag angorfeydd ar y doc hanesyddol.

Wood Wharf

Mae Dyfrffyrdd Prydain, mewn partneriaeth â Grŵp Canary Wharf a Ballymore Properties wedi datblygu prif gynllun ar gyfer Wood Wharf: datblygiad defnydd cymysg saith miliwn troedfedd sgwâr sy'n cynnwys creu glannau o'r radd flaenaf a datblygiad mawr o swyddfeydd, eiddo i'w renti ac eiddo preswyl gan gynnwys cartrefi fforddiadwy yn Nociau Llundain. Mewn ymgynghoriad cyhoeddus llwyddiannus, cefnogwyd ein cynigion ar gyfer parc cymunedol gan 95% o drigolion. O ran lle dŵr, dywedwyd wrthym fod y clwb hwylio yn orlawn bob penwythnos, a bod angen angorfeydd bach i gychod a bod gan y datblygiad y potensial i fod yn 'wych'. Caiff y prif gynllun ei gyflwyno i gael caniatâd cynllunio cyn hir.

Adfer Dyfrffyrdd

Er gwaethaf y penderfyniad anodd i dynnu'n ôl o Bartneriaeth Camlesi Cotswold yn 2007/08, roedd gan Dyfrffyrdd Prydain dri phrosiect adfer mawr ar waith, a oedd yn golygu cyfraniad o £7.3m gan Dyfrffyrdd Prydain (o gyfanswm gwariant o £56.2m). Hefyd, mae gwaith adeiladu ar Gamlesi Droitwich gwerth £11.5m wedi dechrau gan ychwanegu £2.75m arall at gyfanswm buddsoddiad Dyfrffyrdd Prydain.

Afonydd Bow Back, Llundain

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn un o arianwyr ac yn brif bartner arwain mewn prosiect i adeiladu loc gwerth £20m yn Sianel Prescott, a fydd unwaith eto yn ei gwneud yn bosibl i fordwyo Afonydd Bow Back yn Nwyrain Llundain. Mae partneriaid ac arianwyr yn y prosiect yn cynnwys Defra, Awdurdod Datblygu'r Gemau Olympaidd, Transport for London, Corfforaeth Datblygu Porth Tafwys Llundain a'r Adran Drafnidiaeth. Bydd y prosiect yn ei gwneud yn bosibl i Awdurdod Datblygu'r Gemau Olympaidd wneud gwaith hollbwysig ar waliau afonydd a chreu mynediad i gychod i'r Parc Olympaidd hefyd, gan ei gwneud yn bosibl i hyd at 1,400 o deithiau lori gael eu gwneud yr wythnos o ffyrdd lleol yn ystod cyfnod adeiladu'r Gemau Olympaidd. Bydd y prosiect hefyd yn creu rhwydwaith mordwyadwy o ddyfrffyrdd gyda chyfleoedd i greu angorfeydd, tacsis dŵr a theithiau mewn cwch yn y dyfodol. Bwriedir i'r loc fod yn weithredol ym mis Medi 2008 fel ei fod yn barod ar gyfer cyfnod adeiladu'r Gemau Olympaidd.

Camlesi Droitwich

Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adfer camlesi Droitwich ar ddechrau 2008. Mae gwaith rhagarweiniol eisoes wedi dechrau a bwriedir i waith mawr y prosiect gwerth £11.5m ddechrau yn 2008. Bydd y prosiect yn cynhyrchu £2.75m y flwyddyn mewn gwariant ychwanegol gan ymwelwyr, 2,500 o ddiwrnodau gwirfoddoli a bron 200 o swyddi newydd.

Camlas Gweryd a Chlud, Prosiect HELIX

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn bartner ynghyd â Chyngor Falkirk ac Ymddiriedolaeth Goedwig Canolbarth yr Alban ym mhrosiect HELIX, rhaglen Tirnodau Byw gwerth £25m Cronfa Fawr y Loteri a fydd yn troi tua 300 hectar o dirwedd rhwng Falkirk a Grangemouth yn gymuned amgylcheddol ffyniannus. Bydd y gwaith adfywio yn cynnwys datblygu codwr cychod a fydd yn dirnod ynghyd â chamlas newydd wrth ymyl Afon Carron.

Cyswllt Camlas Lerpwl

Bydd Cyswllt Camlas newydd Lerpwl, sydd 1.4 milltir o hyd ac a gaiff ei gwblhau yn 2008/09 yn cysylltu dociau'r ddinas unwaith eto â Chamlas Leeds a Lerpwl. Bydd y datblygiad, mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr, rhaglen Amcan Un Glannau Mersi, English Partnerships, Peel Holdings a Dyfrffyrdd Prydain yn darparu glannau cyhoeddus newydd i bobl Lerpwl eu mwynhau.

Camlas Manceinion, Bolton a Bury

Mae'r gamlas 15 milltir o hyd yn un o'r dyfrffyrdd mawr olaf ym Manceinion Fwyaf y mae angen ei hadfywio. Mae'r gwaith ar y cam cyntaf a mwyaf heriol yn Salford bron â dod i ben a bydd yn ailgysylltu'r gamlas ag Afon Irwell yn haf 2008. Bydd y rhan gyntaf hon yn ganolbwynt i gynllun adfywio gwerth £600m ac yn allwedd i ddatgloi'r gwaith o adfer gweddill y gamlas.

Budd cyhoeddus adfywio a sicrhawyd gan Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau

Bydd daliadau tir Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o bartneriaeth ehangach, yn arwain at waith adfywio gwerth tua £1.17bn ar hyd ein dyfrffyrdd.

Mae Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau yn cyflwyno 110 o gynlluniau ar ei dir, y mae 96 ohonynt yn cynnwys tir llwyd (mae hyn yn cyfateb i dros 290 hectar o dir llwyd).

Bydd y cynlluniau hyn ar dir Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau yn darparu 15,200 o gartrefi newydd i gyd y bydd 3,100 ohonynt yn dai fforddiadwy.

Caiff tua 25,000 o gartrefi newydd eu codi ar ddaliadau tir Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau, naill ai'n annibynnol neu fel rhan o bartneriaeth ehangach.

Bydd cynlluniau datblygu eiddo ac adfywio Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau yn cynnwys adnewyddu 83 o adeiladau neu strwythurau o werth treftadaeth, y mae 59 ohonynt wedi'u rhestru.

Bydd 79% o gynlluniau datblygu eiddo ac adfywio Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau yn agor mynediad newydd i'r dyfrffyrdd ac ar hyd y dyfrffyrdd.

Mae 18 o safleoedd wedi'u lleoli yn ardaloedd blaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer adfywio.

Y DYFODOL

Nid oes unrhyw amheuaeth na fydd heriau i'r dyfrffyrdd yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd yr amodau economaidd llai ffafriol ar hyn o bryd yn cael effaith ar faint o arian sydd ar gael gan y Llywodraeth ac ar dwf yn ein busnesau eiddo a hamdden.

Mae'r ansicrwydd ynglŷn ag effeithiau newid yn yr hinsawdd gan gynnwys mwy o lifogydd, yn achos pryder hefyd, yn enwedig o ran ein costau i gynnal a chadw'r rhwydwaith. Dyna pam rydym wedi llunio cynllun doeth a realistig ar gyfer y tair blynedd nesaf. Wrth wraidd y cynllun mae diogelu treftadaeth unigryw, amgylchedd ac amwynderau y rhwydwaith presennol o ddyfrffyrdd ac, ar yr un pryd, ein galluogi i sicrhau bod prosiectau ehangu mawr sydd eisoes ar waith yn datblygu.

Rydym yn parhau'n frwdfrydig am y buddiannau a gynigir gan y dyfrffyrdd i'r wlad ac yn ymrwymedig i hwyluso'r gwaith o'u sicrhau. Dyna pam y byddwn yn dechrau trafodaeth yn 2008/09 ynglŷn â strategaeth i'n dyfrffyrdd yn y deng mlynedd ar ôl ein cynllun busnes cyfredol. Rydym am greu consensws ynglŷn â'r math o ddyfrffyrdd mewndirol y mae pobl yn eu disgwyl gan Dyfrffyrdd Prydain erbyn tua 2020 a'r ffordd orau o sicrhau bod gweledigaeth o'r fath yn cael ei gwireddu.

I grynhoi, rydym yn ffyddiog yng ngallu'r dyfrffyrdd i gyflawni'r hyn y mae cymunedau ledled y wlad yn ei ddymuno ac rydym yr yn mor ffyddiog, drwy gydweithio ag amrywiaeth mawr o randdeiliaid, y gallwn ddarparu rhwydwaith o ddyfrffyrdd mewndirol sy'n addas at y diben wrth iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 250 fel ased cenedlaethol a werthfawrogir yn fawr ac sy'n ymaddasu o hyd.

ADOLYGIAD YR ALBAN

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban yn gyfrifol am reoli a datblygu rhwydwaith o gamlesi a dyfrffyrdd mewndirol yr Alban, sy'n ymestyn dros 137 milltir.

Yn yr Alban rydym wedi ein noddi ac wedi ein hariannu gan Lywodraeth yr Alban. Mae hyn wedi ein galluogi i weithredu mewn ffordd sy'n adlewyrchu agenda ehangach yr Alban a'r ffaith bod i gamlesi'r Alban eu hanes eu hunain, gyda'u hanghenion eu hunain, ac yn bwysicach na dim, eu cyfleoedd eu hunain yn y dyfodol. Mae'r ddogfen bolisi, 'Scotland's Canals: An Asset for the Future' yn amlinellu'r blaenoriaethau yr ydym yn canolbwyntio ein hadnoddau yn eu herbyn. Gosodwyd heriau mawr i Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban i godi proffil a chyfraniad camlesi'r Alban; i wneud defnydd gwell o'n hasedau ac i'w gwneud yn hygyrch i bob rhan o gymdeithas.

Ers datganoli, mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud buddsoddiad sylweddol iawn o dros £80m yn ein rhwydwaith o gamlesi a fu'n fodd i ni fuddsoddi mewn moderneiddio ac uwchraddio seilwaith camlesi'r Alban. Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar sicrhau bod camlesi'r Alban yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i agenda datblygu cynaliadwy lawer ehangach ym maes twristiaeth a hamdden; iechyd a chymuned; adfywio a datblygu economaidd; a thrafnidiaeth a'r amgylchedd.

Yn 2007/08 cynyddodd ein grant sylfaenol i £11.3m (2006/07: £10.9m). Bydd canlyniad cadarnhaol yr Arolygiad o Wariant yn yr Alban ym mis Tachwedd 2007 yn arwain at gynnydd yn ein grant sylfaenol dros y tair blynedd nesaf (£11.6m yn 2008/09: £11.8m yn 2009.10 a £12m yn 2010/11). Rydym wedi addo cael ffrydiau refeniw gwell i gyfateb i'r cynnydd yn ein grant sylfaenol er mwyn cefnogi ymrwymiad cryf Llywodraeth yr Alban.

Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban yn eu cyfanrwydd yn gyson â'r pum amcan strategol a osodwyd gan Lywodraeth yr Alban ac yn eu cefnogi: yn gyfoethocach a thecach; yn iachach; yn ddiogelach a chryfach; yn gallach; ac yn wyrddach. Credwn ein bod yn sefydliad unigryw o ran ein natur drawsbynciol sy'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr Alban.

Budd cyhoeddus drwy adfywio ac adfer

Mae gweithgarwch datblygu addas ledled camlesi'r Iseldiroedd wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bellach mae'r rhwydwaith yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu cyfoeth yn yr Alban. Mae'r datblygiad defnydd cymysg nodedig ym mhen dwyreiniol Camlas yr Undeb yn ffynnu ac mae'n cael ei hyrwyddo fel Ardal Camlas Caeredin mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caeredin. Yn ychwanegol at hyn, mae Partneriaeth Adfywio Camlas Glasgow yn bwrw ymlaen â'r gwaith hirdymor i adfywio coridor camlas Glasgow a fydd yn helpu i ailfywiogi ac atgyfnerthu cymunedau ledled cymal Glasgow o Gamlas Gweryd a Chlud o Port Dundas i Maryhill dros y 15 i 20 mlynedd nesaf. Ochr yn ochr â'n cyd-fenter ISIS Waterside Regeneration, mae'r prif gynllun arfaethedig i'r ardal o amgylch Lociau Maryhill wedi ystyried nifer o sylwadau gan drigolion lleol a phartïon eraill â diddordeb i lunio'r opsiwn defnydd cymysg gan gynnwys 700 i 800 o gartrefi, siopau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol newydd. Mae cynigion dylunio newydd dramatig a chyffrous ar gyfer yr ardal o amgylch safle hanesyddol Glannau Speirs wedi cael eu cyflwyno yn y cam diweddaraf yn y broses adfywio hirdymor ac mae ymarfer eang i ymgysylltu â'r gymuned yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn yr ardal.

Gwelwyd datblygiadau mawr hefyd yn y gwaith hirdymor i ddatblygu basn Muirtown ar Gamlas y Caledonian yn Iverness. Yn yr un modd yn Ardrishaig, ar Gamlas Crinan, mae prif gynllun wrthi'n cael ei lunio mewn partneriaeth â chymuned Ardrishaig, Cyngor Argyll a Bute, a phartneriaid eraill i droi'r glannau yn gymuned fywiog a chynaliadwy.

Mae'r buddiannau cyhoeddus a grëir gan ein cynlluniau adfywio ac adfer yn parhau a chroesawyd canfyddiadau ymchwil mewn adroddiad a baratowyd gan ymgynghorwyr datblygu economaidd annibynnol a ddangosodd fod adfer camlas Cyswllt Mileniwm wedi sbarduno adfywio ledled llain ganolog yr Alban. Nododd yr adroddiad fod y cynllun gwerth £84.5m a adferodd gamlas Gweryd a Chlud a chamlas yr Undeb wedi helpu i sicrhau dors £178m o fuddsoddiad a thros 4,000 o swyddi yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dangosodd yr ymchwil hefyd fod dros 1,000 o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu a bod 92,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr masnachol wedi cael ei greu ers i'r gwaith uchelgeisiol o adfer y gamlas ddechrau yn 1999.

Yr amgylchedd a threftadaeth

Mae camlesi'r Alban, fel henebion cofrestredig, yn rhan allweddol o'n treftadaeth ac mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i ddiogelu a datblygu'r dreftadaeth adeiledig hon a'r amgylchedd naturiol o'i hamgylch er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mewn amryw brosiectau ledled y rhwydwaith megis trawsnewid Basn Auchinstarry ger Kilsyth, rydym wedi cyflwyno arferion amgylcheddol-gynaliadwy a thechnoleg ecolegol a fydd yn lleihau ein hôl troed carbon yn y blynyddoedd sydd i ddod. Agorodd y Boathouse, sef tafarn a ddatblygwyd gan ein Waterside Pub Partnership, cyd-fenter â Scottish a Newcastle ym mis Ebrill 2008 a hon yw'r gyntaf mewn cyfres o dafarnau eco-gyfeillgar ar lannau camlesi sydd hefyd yn ychwanegu at gyfleoedd twristiaeth yn yr ardal.

Canolbwyntio ar y cwsmer

Mae amrywiaeth eang o welliannau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer gan gynnwys: rheoli llystyfiant; cyfleusterau newydd i gychwyr megis mwy o bontynau, glanfeydd a llithrfeydd; atgyweirio argloddiau; carthu a gwella llwybrau halio mewn cyrchfannau allweddol ynghyd â gwelliannau i amwynderau, arwyddion a deunydd dehongli wedi esgor ar fwy o fuddiannau ledled camlesi'r Alban i gymunedau lleol ac ymwelwyr. Yn ôl ffigurau ar gyfer 2007 cafwyd 23.9m o ymweliadau â llwybrau halio'r camlesi wrth i niferoedd cynyddol o bobl fanteisio ar gyfleoedd hamdden ar y dyfrffyrdd fel rhan o'u hymgais i fyw bywyd iach. Hefyd, mae Olwyn Falkirk, sef y codwr cychod cyntaf, a'r unig un, yn y byd sy'n cylchdroi wedi dod yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd y wlad. Dangosodd ffigurau Cymdeithas Atyniadau Mwyaf Poblogaidd Ymwelwyr fod dros 500,000 o bobl wedi ymweld â'r Olwyn yn 2007, cynnydd o 18% o gymharu â'r llynedd. Mewn partneriaeth â VisitScotland agorodd Canolfan Groeso newydd wrth ymyl yr Olwyn i gyrraedd y gynulleidfa eang hon.

Trwyddedwyd cyfanswm o 3567 o gychod i gyd yn yr Alban, o gymharu â 3490 yn 2006/07 (gweler y tabl i'r dde). Er mwyn i ni helpu ymwelwyr i gael y gorau o'u hymweliad lansiwyd canllawiau poced newydd ar gyfer pob un o'r camlesi ar hyd rhwydwaith yr Alban.

Dangosodd ein harolwg o foddhad cwsmeriaid fod 57% o gychwyr hurio yn yr Alban yn 2007 yn nodi bod y cyflwr cyffredinol yn dda neu'n rhagorol o gymharu â 55% yn 2006, a dywedodd 42% fod y profiad yn well na'r disgwyl, o gymharu â 37% y flwyddyn flaenorol.

Gweithio mewn Partneriaeth

Ni allwn wireddu ein gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith camlesi'r Alban ar ein pennau ein hunain ac rydym yn parhau i feithrin perthynas waith agos ag amrywiaeth mawr o sefydliadau mewn sawl maes polisi. Er enghraifft yn Bowling, porth gorllewinol Camlas Gweryd a Chlud, rydym yn parhau i archwilio rôl y gamlas o ran adfywio ehangach yr ardal. Ceir amrywiaeth o bartneriaid gyda phrosiectau, sydd gyda'i gilydd, yn rhoi cyfle i gyflawni strategaeth gyffredinol a fydd yn trawsnewid cyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Gorllewin Swydd Dumbarton am genedlaethau i ddod.

Gyda chymorth partneriaeth rydym wedi cynnal rhaglen gwerth £1.4m i ddarparu angorfeydd ychwanegol a gwella cyfleusterau i gwsmeriaid ym Masn Bowling. Rydym wedi gwneud astudiaeth ymarferoldeb ac wedi llunio fframwaith prif gynllun sy'n cynnig camlas newydd ar hyd Glyn Leven. Mae Camlas Lomond yn rhan o'r cyfle adfywio hynod gyffrous i esgor ar gyfleoedd datblygu sy'n ymestyn o Bowling, ar hyd glan ogleddol Afon Clud a thrwy goridor Afon Leven i Balloch a Loch Lomond a Pharc Cenedlaethol y Trossachs. Mae atal llifogydd yn fater strategol ac mae Camlas Lomond yn cynnig ateb arloesol i liniaru'r perygl o lifogydd yn Dumbarton, rhannau uchaf Afon Leven ac, o bosibl, ardal Loch Lomond.

Cwblhaodd Menter y Great Glen Ways, sef partneriaeth rhwng Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban, Cyngor yr Ucheldiroedd, Comisiwn Coedwigaeth yr Alban a Scottish Natural Heritage brosiect gwerth £200,000 ar fynediad cyhoeddus a dehongli ar hyd Camlas y Caledonian a'r Great Glen Way gan osod 49 o baneli gwybodaeth a dehongli mewn 31 o leoliadau strategol i annog ymwelwyr i weld y Great Glen ar droed, mewn cwch neu ar feic.

Trwyddedau cychod yn yr Alban

Total = Cyfanswm

Camlas y Caledonian
Camlesi'r Iseldiroedd
Camlas Crinan
Cyfanswm

* Yn 2007/08 ymwelodd 139 o longau cludo nwyddau masnachol â Chamlas Crinan (157 yn 2006/07)
Mae'r trwyddedau a roddwyd yn cynnwys rhai byrdymor yn ogystal â rhai hirdymor

AELODAU
Yn ystod y flwyddyn cafodd y bartneriaeth rhwng Cyngor Falkirk, Dyfrffyrdd Prydain ac Ymddiriedolaeth Goedwig Canolbarth yr Alban y newyddion gwych eu bod wedi cael £25m o raglen Tirnodau Byw Cronfa Fawr y Loteri ar gyfer yr HELIX. Mae'r tîm bellach yn edrych ymlaen at weithio'n agos â'r gymuned a'n partneriaid eraill wrth i'r prosiect ddod at ei gilydd ac wrth i'r HELIX ddod yn fyw. Bydd y prosiect yn trawsnewid safle 300 hectar rhwng Falkirk a Grangemouth a fydd yn dod yn adnodd cymunedol enfawr sy'n seiliedig ar yr amgylchedd a fydd yn cynnig gwell ansawdd bywyd nid yn unig i'r cymunedau lleol niferus yn Falkirk a Grangemouth ac o'u cwmpas ond i'r Alban gyfan.

Pan fydd yr HELIX wedi'i gwblhau bydd yn cyfrannu at agenda Llywodraeth yr Alban i wella mordwyaeth ar Afon Carron i greu cyswllt camlas rhwng Grangemouth ar Afon

Gweryd â rhwydwaith camlesi'r Alban gyda chodwr cychod eiconig ym mynedfa ddwyreiniol Camlas Gweryd a Chlud a fydd yn ymgorffori'r cerflun mwyaf o geffyl yn y byd. Bydd codwr cychod Kelpie nid yn unig yn gamp beirianyddol ond hefyd yn ased twristiaeth pwysig i'r Alban.

Yr allwedd i'r ffordd rydym yn gweithredu mewn partneriaeth yw gwaith Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac sy'n cynrychioli ein buddiannau corfforaethol a masnachol yn amgylchedd gwleidyddol datganoledig yr Alban. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ymddeolodd Campbell Christie fel cadeirydd y grŵp hwn yn ogystal ag is-gadeirydd Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain. Diolchwn i Campbell am ei gyfraniad enfawr dros y deng mlynedd diwethaf.

Rydym hefyd yn chwarae rhan lawn yng Ngrŵp Datblygu Camlesi'r Alban, sef partneriaeth o dan gadeiryddiaeth Llywodraeth yr Alban sy'n dwyn ynghyd sefydliadau â diddordeb cyffredin mewn cyfrannu at gamlesi bywiog a chael budd ohonynt.

Drwy weithio gydag Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd yr Alban (TWTS) rydym yn annog ymgysylltu rhwng y sector cymunedol a gwirfoddol a'n rhwydwaith. Trefnodd TWTS 'Illuminating Links', sef dathliad o Gamlas Gweryd a Chlud a oedd yn cynnwys amrywiaeth enfawr o ddigwyddiadau ar y dŵr a'r tir am ddim gan gynnwys teithiau mewn cwch (drwy garedigrwydd Cymdeithas Camlas Gweryd a Chlud), sesiynau canŵio a chaiacio, perfformiadau cerddorol, ac arddangosfeydd celf a chrefft i ddangos i drigolion lleol ac ymwelwyr pa mor wych yw ein dyfrffyrdd a chymaint sydd ganddynt i'w gynnig a hefyd i roi'r diweddaraf am gynlluniau adfywio hirdymor ar gyfer cangen Glasgow o Gamlas Gweryd a Chlud i drigolion.

Crynodeb

Mae'r tîm yn yr Alban wedi bwrw ymlaen â rhaglen o weithgarwch sydd nid yn unig yn cyfrannu at weledigaeth Dyfrffyrdd Prydain i'r DU ond sydd hefyd yn sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn cynnig llawer mwy na darparu lleoedd dŵr ar gyfer cychod. Erys camlesi'r Alban yn rhan o wead ehangach yr Alban drwy ymateb i agendâu ehangach mewn hamdden a thwristiaeth, iechyd a datblygu cymunedol, adfywio a chyfleoedd economaidd, a'r amgylchedd a chynaliadwyedd.

AELODAU'R BWRDD

Tony Hales CBE, Cadeirydd

Mae Tony yn Gadeirydd ar Workspace Group plc a NAAFL Ltd. Bu gynt yn Brif Weithredwr Allied Domecq ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Banc HSBC CCC a Dŵr Cymru plc. 59 oed. (D, F, G)

Richard Bowker CBE, Is-gadeirydd

Richard yw Prif Weithredwr Grŵp National Express Plc, sef busnes trafnidiaeth rhyngwladol o bwys. Mae'n gyn-Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, mae hefyd yn Aelod Bwrdd o'r Countryside Alliance, Ymddirieolwr Ymddiriedolaeth Rheilffordd Settle Carlisle, Dirprwy Lywydd y Gymdeithas Rheilffordd Treftadaeth, ac aelod o Fwrdd Datblygu Busnes SCOPE. Mae Richard hefyd yn mwynhau hwylio mewn cwch ac mae wedi teithio'n helaeth o amgylch y rhwydwaith yn ei gwch ei hun.
41 oed. (B, D)

John Bridgemen CBE TD

Mae John yn gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Masnachu Teg, Aelod o'r Comisiwn Monopolïau ac Uno ac yn Brif Swyddog Gweithredol British Alcan Aluminium plc. Ef yw Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain, Cadeirydd Pwyllgorau Archwilio a Safonau Cyngor Sir Swydd Warwick ac Awdurdod yr Heddlu, Dyfarnydd Cwynion i Gymdeithas Teledu Ar Alw ac ymgynghorydd annibynnol mewn Strategaeth Gorfforaethol, Polisi Cystadleuaeth a Materion Defnyddwyr.
63 oed.
(A, B, F)

John Bywater

Ymddeolodd John fel Cyfarwyddwr Bwrdd Hammerson plc, cwmni eiddo Mynegai'r Can Cwmni ym mis Ebrill 2007 ac wedi ymgymryd â swydd Reolwr Gyfarwyddwr Caddick Developments, datblygwr eiddo bach yn swydd Efrog. Mae'n Gyfarwyddwr annibynnol Workspace Group plc, yn ddarparwr arweiniol eiddo masnachol fforddiadwy i fentrau bach a chanolig, ac yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Adeiladu West Bromwich. Mae John hefyd yn aelod o fwrdd cynghorol Academi St. Martin in the Fields, un o brif gerddorfeydd Llundain. 60 oed (C, G)

Maggie Carver

Mae Maggie yn gyn-ariannwr ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol i nifer o gwmnïau, yn bennaf yn sector y cyfryngau, gan gynnwys Channel Five Television Group Ltd. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol RDF Media Group PLC ac yn Rheolwr Gyfarwyddwr Milton Keynes Mobility Ltd, busnes sy'n gwerthu cynnyrch i bobl oedrannus ac anabl, sy'n golygu ei bod yn gyfarwydd â materion o ran mynediad.
43 oed. (C, D)

Dr. Jon Hargreaves CBE

Ymunodd Jon â'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2008 i gynrychioli buddiannau'r Alban ar ôl profiad helaeth yn y diwydiant dŵr, yn fwyaf diweddar fel Prif Weithredwr Scottish Water. Mae hefyd yn Gadeirydd ar Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban. Mae ganddo 34 o

flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant dŵr ynghyd â phrofiad o farchnadoedd rhyngwladol.
58 oed (E)

Nigel Hugill

Nigel yw Cadeirydd Lend Lease Europe a chyn-Reolwr Gyfarwyddwr Chelsfield plc (y ddau yn fusnesau eiddo a datblygu mawr). Mae'n aelod o Gyngor Cyffredinol Ffederasiwn Eiddo Prydain ac o'r Comisiwn Trafnidiaeth Annibynnol. Mae'n un o Lywodraethwyr Ysgol Economeg Llundain, cymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol ac yn Ymddiriedolwr y Sefydliad Pensaernïaeth
50 oed. (B, G)

Eric Prescott

Mae Eric yn Gadeirydd Anweithredol this-tel Ltd - cwmni dechrau busnesau technegol a chyn-Lywydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Alstom UK a chwmnïau seilwaith eraill. Mae'n Ymddiriedolwr i nifer o elusennau sy'n gweithio gyda phlant difreintiedig a throseddwyr ifanc. Fel aelod o Bwyllgor Llywydd y CBI, mae wedi gweithio ar faterion o ran newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae'n enweiriwr brwd gyda 45 mlynedd o brofiad o bysgota ar gamlesi'r DU.
51 oed (A, B)

Pommy Sarwal

Mae Pommy yn Gynghorwr Ariannol ac yn aelod anweithredol o Fwrdd Porth Llundain ac Ymddiriedolaeth Doc Hanesyddol Chatham. Mae ganddo brofiad eang o reoli ariannol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac mae'n gyn-Bartner Ariannol Corfforaethol yn Deloitte a Touche ac yn gynghorydd wedi'i gadw iddo. Mae ganddo ddiddordeb brwd mewn treftadaeth a chadwraeth.
57 oed (B, F)

Duncan Suntherland

Mae Duncun yn Rheolwr Gyfarwyddwr Inpartnership. Bu gynt yn Gyfarwyddwr Datblygu Dinas i Gyngor Dinas Cofentri ac mae wedi cyflawni llawer o brosiectau canol dinas gan gynnwys Basn Camlas Cofentri. Mae hefyd wedi gweithio yn Inner City Enterprises plc, wedi bod yn Brif Weithredwr ar EDI Group Ltd ac wedi bod yn rhan o sefydliadau cenedlaethol megis Cyngor Ymgynghorol Cymdeithas Bwrdeistrefi Hanesyddol yr Alban ac yn aelod o Bwyllgor Gweithredol Cyngor Datblygu a Diwydiant yr Alban.
56 oed (C, E, G)

Cyfarwyddwyr Gweithredol

Robin Evans BSc, FRICS
Prif Weithredwr
Ymunodd Robin â Dyfrffyrdd Prydain yn 1999 fel Cyfarwyddwr Masnachol a daeth yn Brif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2002. Cyn hynny treuliodd bedair blynedd fel Cyfarwyddwr Palasau ar gyfer Palasau Brenhinol Hanesyddol a bu'n Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Tirnod am wyth mlynedd.
54 oed

Mark Bensted IEng. AMIStructE
Cyfarwyddwr, Llundain
Bu Mark yn gyfrifol am weithgareddau gweithredol, eiddo, hamdden ac adfywio Dyfrffyrdd Prydain Llundain ers 1990. Cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain bu Mark yn gweithio yn y diwydiant adeiladu i Taylor Woodrow a Kyle Stewart.
50 oed.

Steve Dunlop BEd (Anrh)
Cyfarwyddwr, yr Alban
Bu Steve yn Gyfarwyddwr Adfywio yng Nghyngor Dinas Newcastle. Dechreuodd ar ei yrfa mewn rheoli hamdden cyn symud i nifer o uwch swyddi proffil uchel mewn llywodraeth leol. Ei swydd ddiweddaraf oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol yng Nghyngor Falkirk
46 oed.

James Froomberg MA
Cyfarwyddwr Masnachol
O 1983 i 1999 gweithiodd James i KPMG. Ac yntau'n Bartner, bu'n bennaeth ar ymgynghoriaeth rheoli'r cwmni i'r diwydiant hamdden a'r diwydiant eiddo. Yno fe'i penodwyd i Wembly plc yn Gyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol, cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain ym mis Mawrth 2004.
52 oed.

Nigel Johnson BSc (Econ), Cyfreithiwr
Cyfarwyddwr Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Bu Nigel yn gweithio fel cyfreithiwr corfforaethol yn y diwydiant cyllid am 18 mlynedd a bu'n uwch gyfreithiwr yn Westminister cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain.
53 oed (A)

Vince Moran BA, FCIPD
Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cwsmeriaid
Ymunodd Vince â Dyfrffyrdd Prydain yn dilyn profiad helaeth mewn personél rheoli cyffredinol ym maes cynhyrchu, gweithgynhyrchu a gweithgareddau gwasanaeth gyda'r diwydiant glo a Chubb Security plc.
52 oed.

Philip Ridal BEng. FCA, MCT
Cyfarwyddwr Cyllid
Ac yntau'n aelod o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig ac yn aelod o Gymdeithas y Trysoryddion Corfforaethol, mae Philip wed dal amryw swyddi ariannol mewn cwmnïau eiddo a restrir yn y DU, gan gynnwys grŵp adeiladu Mowlem ac mae'n gyn-Gyfarwyddwr Cyllid Grŵp Meysydd Awyr Manceinion plc.
54 oed (A)

Simon Salem BA, MBA
Cyfarwyddwr Marchnata a Gwasanaethau Cwsmeriaid
Mae gan Simon 20 mlynedd o brofiad ym maes marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, materion corfforaethol a chodi arian. Cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain bu'n gweithio i London Transport. Mae wedi gweithio'n helaeth yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth.
50 oed.

Jim Stirling OBE, BSc, MBA CEng, FICE, MIStructE
Cyfarwyddwr Technegol
Ymunodd Jim â Dyfrffyrdd Prydain fel Rheolwr, yr Alban yn 1992 a daeth yn Gyfarwyddwr, yr Alban yn 1997 ac yn Gyfarwyddwr Technegol yn 2005. Treuliodd Jim flynyddoedd lawer ym meysydd peirianneg sifil, adeiladu a datblygu yn y DU a thramor.
55 oed.

Aelodau'r Bwrdd
Penodir Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac (mewn perthynas â dau aelod) Llywodraeth yr Alban. Bwriedir i'r penodiadau sicrhau cydbwysedd da o sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gorchwyl eang Dyfrffyrdd Prydain.

Allwedd i'r Aelodaeth

A. Cyfarwyddwr BW Pension Trustees Ltd
B. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
C. Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth
D. Aelod o'r Pwyllgor Enwebu
E. Aelod o Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban
F. Aelod o'r Pwyllgor Masnach Deg
G. Aelod o Bwyllgor y Grŵp Eiddo.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Cyfrifon 2008 yw'r rhai cyntaf a baratowyd gan Dyfrffyrdd Prydain o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd gan y Gyfarwyddeb Cyfrifon (IFRS). Yn sgîl mabwysiadu IFRS gwelir nifer o newidiadau i'r ffordd y cyflwynir ein cyfrifon a'r gymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Nodir manylion am y prif newidiadau isod:

- cydnabyddir y gwarged/diffyg ailbrisio blynyddol ar eiddo buddsoddi yn y datganiad incwm;
- caiff rhwymedigaethau trethiant gohiriedig ychwanegol eu darparu mewn perthynas â gwahaniaethau amseru dros dro ar brisiadau eiddo buddsoddi a'r gost eiddo hanesyddol.

Dangosir rhagor o wybodaeth am newid i IFRS yn nodyn 27 i'r datganiadau ariannol ar dudalen 79.

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi'i ariannu'n rhannol drwy gymorth grant gan Defra yng Nghymru a Lloegr a chan Lywodraeth yr Alban yn yr Alban. Dim ond pan fo ei angen y gellir rhoi cymorth grant ac yn unol â hynny mae Dyfrffyrdd Prydain yn anelu at adennill costau ar ei gyfrif elw a cholled gweithredol o flwyddyn i flwyddyn. Trosglwyddir elw cyfalaf a wireddwyd o waredu buddsoddiadau anweithredol i gronfeydd wrth gefn er mwyn tyfu sylfaen gyfalaf y busnes ac ailfuddsoddi i greu ffrydiau incwm cynyddol.

Y canlyniad o ran gweithgareddau gweithredol, ar ôl trethiant y gellir ei briodoli, oedd colled o £1.8m o gymharu ag elw o £1.7m yn y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd cronfeydd wrth gefn y Grŵp 12% i £447.8m gan adlewyrchu enillion anweithredol ar waredion buddsoddi, cynnydd o ran ailbrisio ein buddsoddiadau eiddo a lleihad yn nffyg y gronfa bensiwn.

Incwm Masnachu

Cynyddodd incwm y Grŵp cyfan 16% i £219.1m yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cyfraniadau trydydd person tuag at waith ar seilwaith y dyfrffyrdd. Y prif gyfranwyr at y cynnydd hwn oedd y gwaith adfer yng Nghyswllt Lerpwl a Chamlas Bolton a Bury Manceinion ynghyd â'r gwaith adfywio yn Afonydd Bow Back a'r loc newydd ym mhrosiect adeiladu Sianel Prescott sy'n cefnogi Gemau Olympaidd 2012.

Cynyddodd incwm o renti eiddo, ffordd-freintiau a phremiymau 4% i £38.9m. Perfformiodd ein cyfleustodau a'n busnes gwerthu dŵr yn dda gydag incwm yn cynyddu 4% yn bennaf oherwydd cytundebau newydd â chwmnïau cyfleustodau. Mae incwm o drwyddedau cychod wedi cynyddu 6.8% gan adlewyrchu'r cynnydd o 5% yn nifer y trwyddedau a roddwyd a chynnydd yn elw prisiau o 2%. Mae incwm o angorfeydd wedi cynyddu 8% oherwydd cynnydd mewn cyfraddau angori yn unol â phrisiau cymharol ar y farchnad.

Mae ein hincwm o grantiau'r Llywodraeth wedi lleihau i £67.9m, yn bennaf oherwydd na welwyd y cynnydd ad hoc y flwyddyn flaenorol yng ngrant Llywodraeth yr Alban eto.

Mae cyfran trosiant y Grŵp mewn cyd-fentrau wedi lleihau i £4.6m (2007: £15.0m) a lleihaodd cyfran yr elw ar ôl treth i golled o £2.4m (2007: £7.3m o elw). Mae'r lleihad yn nhrosiant cyd-fentrau yn adlewyrchu gohirio gwerthu safleoedd datblygu am fod y marchnadoedd eiddo wedi arafu.

Trosglwyddwyd £38.1m (2007: £45.7m) i gronfeydd cyfalaf wrth gefn mewn perthynas ag elw a wireddwyd sy'n codi o waredu eiddo buddsodi a buddsoddiadau, yn glir o drethiant y gellir ei briodoli, ynghyd ag enilion ailbrisio nas gwireddwyd ar eiddo buddsoddi (gweler y tablau gyferbyn).

Crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn £m

BW Group = Grŵp Dyfrffyrdd Prydain
Change % = Newid %

Incwm masnachol
Cyfraniadau trydydd parti tuag at waith
Grantiau'r Llywodraeth
Incwm y Grŵp Cyfan

Elw/(colled) gweithredu

Cyfran y Grŵp o incwm o gyd-fentrau
Cyfran y Grŵp o ganlyniadau gweithredu cyd-fentrau

Elw/(colled) ar weithgareddau gweithredol
Cyn treth
Ar ôl treth*

Elw/(colled) ar weithgareddau eiddo anweithredol
Cyn treth
Ar ôl treth*

Cronfeydd wrth gefn y Grŵp

* wedi'i throsglwyddo i gronfeydd refeniw wrth gefn
** wedi'i throsglwyddo i gronfeydd cyfalaf wrth gefn

Crynodeb o incwm masnachol y Grŵp £m

BW Group = Grŵp Dyfrffyrdd Prydain
England & Wales = Cymru a Lloegr
Scotland = Yr Alban
Change restated = Newid a ailddatganwyd

Rhenti eiddo, ffordd-freintiau a phremiymau
Incwm cyfleustodau a gwerthu dŵr
Incwm trwyddedau cychod
Cyfanswm incwm BWML
Trwyddedau angori Dyfrffyrdd Prydain*
Gwerthiannau manwerthu Dyfrffyrdd Prydain*
Cynnal a chadw ac incwm arall
Incwm masnachol y Grŵp

* Heb gynnwys BWML

Cyfraniadau trydydd parti at waith i'r Grŵp £m
Cyfraniadau adfer camlesi

Cyfraniadau at waith arall a ariannwyd gan drydydd parti
Cyfraniadau trydydd parti at y Grŵp
Trosiant y Grŵp, heb gynnwys cyd-fentrau
Grant sy'n dderbyniadwy gan y llywodraeth

Ystadegau incwm cychod

Incwm trwyddedau cychod hirdymor £m
Nifer y trwyddedau cychod hirdymor a roddwyd
Incwm trwyddedau cychod fesul cwch £
Incwm angorfeydd £m
Nifer y trwyddedau angori a roddwyd*
Incwm angorfeydd fesul trwydded* F

- Heb gynnwys BWML

Trwyddedau ac angorfeydd

Cychod pleser preifat - camlesi ac afonydd
Gyda phŵer
Heb bŵer

Cyfanswm
Cychod pleser preifat – afonydd
Gyda phŵer
Heb bŵer
Cyfanswm

Cychod pleser preifat – pob dyfrffordd
Gyda phŵer
Heb bŵer
Cyfanswm y cychod pleser preifat
Cychod preswyl
Cychod busnes
Cychod busnes hamdden
Platiau masnach, llongau cludo nwyddau a llongau gwaith
Cyfanswm y cychod busnes

Cyfanswm y trwyddedau hirdymor

Ceir dadansoddiad o'r trwyddedau cychod a roddwyd yn yr Alban ar dudalen 167 yn Adolygiad yr Alban

Dadansoddiad o gostau gweithredu £m

Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaeth cwsmeriaid
Gwaith mawr ar seilwaith
Carthu camlesi
Costau gweithredu unedau busnes
Costau gweithredu BWML
Asedau a ariannwyd drwy waddol
Swyddogaethau Pencadlys a gwasanaethau canolog

Costau adfer camlesi

Costau gwaith arall a ariannwyd gan drydydd parti

Costau ad-drefnu busnes

Costau gweithredu

Cynyddodd costau gweithredu heb gynnwys cyfraniadau trydydd parti 1% i £164.4m

Yn y tabl gyferbyn yr eitemau a ddisgrifir fel cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaeth cwsmeriaid, gwaith mawr ar seilwaith a charthu gyda'i gilydd yw gwariant uniongyrchol Steady Slate ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd sef £95.1m (2007: £94.8m). Mae'r eitem o dan gostau gweithredu unedau busnes yn cynnwys costau rhedeg naw swyddfa ddyfrffyrdd ledled y DU ynghyd â'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gael incwm masnachol. Mae costau Pencadlys a gwasanaethau canolog yn cynnwys cost prif swyddfa'r Grŵp, yn Watford, ynghyd â chost swyddogaethau'r gwasanaethau canolog sy'n cefnogi'r dyfrffyrdd a'r busnes sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r swyddogaethau canolog hyn a rennir wedi'u lleoli yn Leeds a Watford yn bennaf ac maent yn cynnwys cyfrifyddu ariannol, caffael, trwyddedau cychod ac angori, TGCh, adnoddau dynol, marchnata a gwasanaethau cwsmeriaid, staff peirianneg dechnegol a gwasanaethau cyfreithiol.

Cynyddodd gwariant ar gynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaeth cwsmeriaid 9% o'i gymharu â 2006/07 yn unol â'r polisi o wella safonau yn y meysydd hyn ac ymdrin â chostau llifogydd a digwyddiadau adweithiol eraill. Parheir i geisio arbedion effeithlonrwydd drwy'r defnydd o dechnoleg newydd a'r adolygiad o brosesau gweithredol a gweinyddol. Yn ystod y flwyddyn parhawyd â'r prosiect Dulliau Gwaith Newydd i symud unedau busnes dyfrffyrdd i adeiladau llai, mwy effeithlon neu ad-drefnu'r swyddfeydd presennol er mwyn eu defnyddio'n fwy effeithlon. Mae prif swyddfa Dyfrffyrdd Prydain hefyd wedi symud i adeilad newydd modern yn Watford, sydd wedi arwain at arbed costau.

Lleihaodd gwariant ar waith mawr £4.7m (18%) i £21.5m yn bennaf oherwydd gohirio elw o incwm cyd-fentrau, a'r angen i fantoli'r canlyniad gweithredol, a llai o ariannu grant ad hoc gan Lywodraeth yr Alban (gweler y tabl ar waelod y dudalen gyferbyn).

Elw a cholled o weithgareddau gweithredol

Lleihaodd yr elw a'r golled ar weithgareddau gweithredol ar ôl trethiant y gellir ei briodoli, i golled net o £1.8m (2007: elw o £1.7m).

Enillion ar weithgareddau eiddo anweithredol

Cafwyd £19.4m (2007: £8.3m) o enillion ar waredu eiddo ac maent wedi parhau i fod yn well na'r disgwyl er gwaethaf y pryderon diweddar ynglŷn â'r farchnad eiddo. Cafwyd £46.2m i gyd (2007: £38.3m) o werth eiddo a buddsoddiadau. Ailfuddsoddwyd yr arian parod a godwyd o waredu eiddo mewn buddsoddiadau newydd mewn eiddo ac mewn cyd-fentrau i ariannu'n rhannol brynu tir a gwariant ar eu datblygiad.

Roedd gwargedion ailbrisio ar gyfer 2007/08, sef £17.2m (2007: £44.1m) dipyn yn is nag yn 2006/07 ond eto i gyd, roeddent yn well na'r duedd gyffredinol yng ngwerthoedd eiddo buddsoddi'r DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hynny oherwydd cynnydd sylweddol mewn ailbrisiadau sy'n deillio o ailnegodi prydlesau ac adolygiad o gynnydd mewn rhenti sydd wedi gwneud iawn yn rhannol am y tueddiadau prisio cyffredinol tuag i lawr. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys eiddo ac

iddo botensial datblygu lle bu twf cyfalaf yn y tymor hwy yn nod pennaf, nod a gyflawnwyd drwy adfywio safleoedd penodol ac ychwanegiadau at ganiatadau cynllunio.

Operational activities £m = Gweithgareddau gweithredol

Colled gweithredu
Cyfran o ganlyniadau gweithredu cyd-fentrau (ar ôl treth)
Llog derbyniadwy
Llog taladwy
Elw/(colled) ar weithgareddau gweithredol cyn trethiant
Treth gorfforaeth y gellir ei phriodoli
(Colled)/elw net a gadwyd

Non-operational activities £m = Gweithgareddau anweithredol

Elw ar waredu eiddo buddsoddi
Elw ar werthu eiddo'r brif swyddfa
Enillion nas gwireddwyd ar ailbrisio eiddo buddsoddi
Elw ar weithgareddau eiddo anweithredol cyn trethiant

Treth enillion cyfalaf ar elw gwaredu
Credyd / (tâl) treth ohiriedig ar enillion nas gwireddwyd
Trosglwyddo i gronfeydd cyfalaf wrth gefn a wireddwyd

(Colled)/elw net a gadwyd

Cynhaliwyd y prisiad o eiddo buddsoddi fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2007. Mae'r symudiad mewn prisiadau am y cyfnod o dri mis hyd at 31 Mawrth 2008 wedi'i archwilio ac ni chredir bod angen addasiad net sylweddol i brisiad mis Rhagfyr 2007. Fodd bynnag yn ôl dangosyddion y farchnad bydd y cynnydd sy'n parhau yn enillion prisiadau eiddo buddsoddi a'r gostyngiad ym marchnadoedd eiddo preswyl yn effeithio'n negyddol ar werth eiddo yn 2008.

Trosglwyddwyd £38.1m (2007: £45.7m) i gronfeydd cyfalaf wrth gefn sef elw ar waredu eiddo buddsoddi net o drethiant y gellir ei briodoli ac enillion ailbrisio eiddo nas gwireddwyd (gweler y tabl ar y dudalen flaenorol).

Rheoli Trysorlys ac arian parod

Dim ond mewn adneuon marchnad arian y buddsoddir arian parod am gyfnodau nad ydynt yn fwy na thri mis. Ar ddiwedd y flwyddyn cafwyd balans arian parod gweithredol o £12m (2007: £40m) a balans arian parod gweithgarwch anweithredol o £19.8m (2007: £18.1m). Delir £1.7m arall (2007: £1.3m) yng nghyfrifon ariannu trydydd parti ar gyfer cynlluniau adfywio ac adfer ynghyd â £4.1m (2007: £3.5m) a ddaliwyd mewn is-gwmnïau o dan berchenogaeth lwyr (gweler y tabl ar frig y dudalen nesaf).

Rhyddhawyd swm net o £26.5m (2007: £13.7m) o arian parod yn ystod y flwyddyn o werthu eiddo buddsoddi yn glir o symiau a ddefnyddiwyd ar gyfer buddsoddiadau eiddo a thaliadau treth. Delir y balansau arian parod anweithredol i fodloni rhwymedigaethau treth ac ymrwymiadau ariannu i gyd-fentrau.

Gostyngodd benthyciadau hirdymor £2.0m i £7.9m sef 1.7% (2007: 2.3%) o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn.

Lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chyfradd llog

Daw benthyciadau Dyfrffyrdd Prydain o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol a thelir cyfraddau llog sefydlog tan y dyddiad ad-dalu. Mae gan Dyfrffyrdd Prydain fuddiannau mewn nifer o gyd-fentrau datblygu eiddo sy'n fusnesau annibynnol ac sy'n cael eu hariannu'n annibynnol â dyled banc allanol heb droi at Dyfrffyrdd Prydain. Ym mhob un o'r cyd-fentrau asesir a ddylai'r taliadau llog ar fenthyciadau gael eu rhagfantoli o ran maint y ddyled, am ba gyfnod y bwriedir benthyca symiau a sensitifrwydd y prosiect i newidiadau mewn cyfraddau llog.

Ar 31 Mawrth 2008 benthycwyd cyfanswm o £125m (2007: £73m) o dan gyd-fentrau. O'r benthyciadau hyn mae 22% (2007: 23%) naill ai ar gyfradd llog sefydlog neu mae trefniadau ar waith i droi at gyfradd llog sefydlog.

Cronfa bensiwn

Paratoir y cyfrifon yn unol ag IAS 19, sef safon gyfrifyddu IFRS sy'n ymwneud â chyfrifyddu mewn perthynas â chronfeydd pensiwn.

Yn ystod y flwyddyn perfformiodd asedau buddsoddi yn weddol dda mewn marchnadoedd anodd gan ddangos cynnydd o 1.7% i gyd mewn gwerth. Cyfrannodd newidiadau i'r gyfradd disgowntio prisio rhwymedigaethau at y lleihad o 5.1% yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau. Ar 31 Mawrth 2008 roedd gwerth yr asedau yn cwmpasu 89% (2007: 83%) o rwymedigaethau'r gronfa.

Mae'r tablau i'r dde yn dangos y symudiadau ar y gronfa bensiwn yn seiliedig ar IAS 19.

Bob tair blynedd mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr y Gronfa drefnu i actiwari annibynnol brisio'r gronfa. Mae canlyniadau'r prisiad a gynhaliwyd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2007 wedi'u cwblhau'n derfynol gan yr Ymddiriedolwyr a'u cyflwyno i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Dengys y prisiad fod y diffyg o £42m ym mhrisiad 2004 wedi'i unioni i raddau helaeth gan berfformiad buddsoddi da a chyfraniadau ychwanegol gan Dyfrffyrdd Prydain. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o ddisgwyliad oes aelodau'r cynllun pensiwn yn dangos bod aelodau, ar gyfartaledd, yn byw'n hirach sy'n golygu bod pensiynau yn daladwy am gyfnod hwy. O ganlyniad crëwyd diffyg newydd o £35.8m yn y prisiad diweddaraf ar 31 Mawrth 2007. Er mwyn gwneud iawn am y diffyg hwn mae Dyfrffyrdd Prydain wedi cytuno â'r Ymddiriedolwyr i wneud taliadau arian parod ychwanegol i'r gronfa a fydd yn dileu'r diffyg am wasanaeth a roddwyd dros gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r disgwyliad oes hwy hefyd yn effeithio ar gost pensiynau a enillir gan aelodau yn y dyfodol. Hyd yma mae Dyfrffyrdd Prydain wedi cyfrannu 12% o gyflog gydag aelodau yn cyfrannu 5.7% o gyflog i ariannu buddiannau a enillwyd; cyfanswm o 17.7% o gyflog pensiynadwy. Mae'r Actiwari wedi asesu, er mwyn caniatáu ar gyfer disgwyliad oes hwy, y dylid cyfrannu 21% o gyflog pensiynadwy i gyd - cynnydd o 3.3%. Telir y gwahaniaeth hwn drwy gynnydd yng nghyfraniad Dyfrffyrdd Prydain o 12% i 14% a chynnydd yng nghyfraniadau aelodau i 7% o gymharu â 5.7% o'r blaen.

Llif arian parod

Colled gweithredu
Difidendau o gyd-fentrau
Eitemau anariannol mewn colled gweithredu
Symudiad mewn cyfalaf waith a darpariaethau
Llog net sy'n dderbyniadwy

Llif arian parod gweithredu

Gwariant cyfalaf gweithredol (net)
Prynu eiddo buddsoddi
Gwaredu eiddo a buddsoddiadau
Buddsoddi mewn cyd-fentrau
Taliadau i gaffael masnach neu fusnesau
Taliadau trethiant

Llif arian parod net

Balansau arian parod ar 31 Mawrth

Crynodeb o newidiadau i ddiffyg y gronfa bensiwn

Diffyg ar 1 Ebrill

Cost gwasanaethau cyfredol
Addasiad cost am wasanaeth a roddwyd
Disgownt o ddirwyn rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn i ben
Elw ar asedau'r cynllun pensiwn
Enillion actiwaraidd
Cyfraniadau mewn arian parod gan y cyflogwr

Diffyg ar 31 Mawrth

Asedau a rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn £m

31 March = 31 Mawrth
Change % = Newid %

Gwerth asedau ar y farchnad
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau
Diffyg

Ariannu %

Crynodeb o symudiadau ar y gronfa elw a cholled wrth gefn

Operating Activities = Gweithgareddau Gweithredu
Pension Deficit = Diffyg Pensiwn
Total = Cyfanswm

Balans ar 1 Ebrill 2007
Colled ar weithgareddau gweithredu ar gyfer y flwyddyn cyn treth
Lleihad yn rhwymedigaeth y gronfa bensiwn (yn glir o dreth ohiriedig)

Balans ar 31 Mawrth 2008

Mantolen

Mae cronfeydd wrth gefn y Grŵp wedi cynyddu £51.0m i £477.8m (2007: £426.8m) sef cynnydd o 12% dros y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud yn bennaf â gwarged ailbrisio eiddo buddsoddi o £22.7m (yn glir o dreth ohiriedig), elw o £15.4m o waredu eiddo a buddsoddiadau a wireddwyd ar ôl trethiant, a lleihad yn y diffyg yn y gronfa bensiwn o £13.6m, yn glir o dreth ohiriedig.

Rheoli risg

Rydym wedi parhau i gyflwyno'r elfennau newydd o arfer gorau cyfredol i'n fframwaith rheoli risg. Mae hyn yn helpu i reoli risg i greu cyfleoedd am arloesedd a thwf yn ogystal â nodi bygythiadau i gyflawni ein hamcanion. Disgrifir y ffordd rydym yn rheoli risg yn yr Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol ar dudalen 34. Dengys hyn y pwys a roddir ar barhau i gael eglurdeb ynglŷn â risgiau, gan sicrhau bod prosesau rheoli effeithiol yn bodoli a bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant Dyfrffyrdd Prydain. Mae'r prif risgiau yn deillio o seilwaith y dyfrffyrdd ac o'n gweithgareddau masnachol.

Caiff asedau eu harchwilio, eu hasesu a'u blaenoriaethu ar gyfer camau adferol yn barhaus gan fod methiannau'n arwain at ganlyniadau difrifol. Mae cwblhau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sy'n hanfodol i ddiogelwch yn 2004 wedi lleihau'r risg gyffredinol yn y sylfaen asedau. Mae gwaith hanfodol ond llai brys i'w wneud o hyd i gyrraedd cyflwr cyffredinol cynaliadwy.

O gofio natur ein gwaith a'n cyfrifoldebau rydym yn agored iawn i newidiadau, drwy ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd, i'r safonau hyn y cytunwyd arnynt. Cawn wybod yn well beth fydd yr effeithiau wrth i'r gofynion llawn sy'n deillio, er enghraifft, o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ddod yn gliriach.

Caiff ffynonellau cynyddol hanfodol a phwysig o arian ychwanegol eu sicrhau drwy bartneriaethau. Mae'r mentrau hyn yn fodd i elwa ar asedau dyfrffyrdd Dyfrffyrdd Prydain drwy ddefnyddio arian buddsoddi ac arbenigedd datblygu allanol. Datblygwyd prosesau i leihau'r risg wrth ddewis partneriaid cyd-fentrau, monitro perfformiad a sicrhau llywodraethu priodol ac eglurdeb wrth ddyrannu cyfrifoldebau priodol rhwng partneriaid. Mae ein cyd-fentrau yn cynnwys datblygiadau eiddo sylweddol sy'n cynnwys amrywiol risgiau masnachol.

Rydym yn mynd ati i ddefnyddio arbenigedd y partneriaid a ddewisir gennym yn y maes i reoli'r risgiau hyn yn effeithiol o fewn cyfyngiadau'r cylch economaidd ehangach.

Mae risgiau yn gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau hyn i'r busnes. Maent yn canolbwyntio ar ymddygiad sy'n meithrin cysondeb wrth gyflawni safonau, gwasanaeth cwsmeriaid a diogelwch. Rydym yn rheoli'r risgiau hyn drwy godau ymarfer er mwyn sicrhau masnachu teg, technegau rheoli prosiect cydnabyddedig, cyfathrebu, arfarniadau rheolaidd o berfformiad a chynlluniau datblygu unigol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau busnes newydd.

Ein prif flaenoriaeth yw diogelwch ein cwsmeriaid, ein contractwyr a'n cyflogeion ar y dyfrffyrdd. Rydym yn gwella ein prosesau diogelwch o hyd ac yn mesur ein perfformiad o ran diogelwch. Mae hyfforddiant diogelwch, gweithdrefnau, arwyddion,

archwiliadau rheolaidd o asedau a gwaith cynnal a chadw arnynt a datblygu cymwyseddau perthnasol yn enghreifftiau o'n fframwaith diogelwch.

O ran ein hamcanion ehangach, rydym yn ymrwymedig i sicrhau buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol a threftadaeth. Gwneir asesiadau yn seiliedig ar risg yn unol â'n cod ymarfer amgylcheddol ar gyfer pob math o waith a wneir ac rydym wedi cyflwyno targedau cynaliadwyedd i leihau effaith allyriadau carbon a'r defnydd o adnoddau. Rydym yn asesu ein holl asedau treftadaeth yn rheolaidd ac yn gwneud gwaith dilynol ar adeiladau mewn perygl. Caiff risgiau diogelwch, fandaliaeth a rhwystrau i fynediad oll eu rheoli drwy ein rôl addysgol ac ymgysylltu â'r gymuned drwy sefydliadau sy'n ymwneud yn helaeth â chynhwysiant cymdeithasol a gwirfoddolwyr.

Mae ein gweithgareddau adfywio, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar safle'r Gemau Olympaidd yn esgor ar fuddiannau yn amrywio o'r ffordd rydym yn rheoli lleoedd dŵr i gynlluniau ailddatblygu ehangach. Mae rheoli prosiectau yn dda, cydgysylltu â phartneriaid sy'n cyflawni gweledigaethau a rennir yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau yn amserol.